**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M H Jones | W Evans | M B Lewis |
| D W W Thomas | T M White | L J Tyler-Lloyd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |
| Steve Smith | Arweinydd y Tîm Dylunio Trefol a Chadwraeth |
| Krystyna Williams | Urban Design & Conservation Officer |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R D Lewis a/ac P B Smith

---

**14 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**15 Cymeradwyo Ymgynghoriad Cyhoeddus a Rhanddeiliaid ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Preswyl**

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn ceisio sicrhau cymeradwyaeth gan Aelodau i gynnal y broses ymgynghori ac ymgysylltu angenrheidiol gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar dair dogfen ganllaw creu lleoedd ddrafft ar gyfer datblygiadau preswyl.

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad gweledol manwl a llawn gwybodaeth i'r Pwyllgor a oedd yn amlinellu'r prif faterion a'r cefndir sy'n ymwneud â diweddaru ac adolygu'r tair dogfen ganllaw creu lleoedd sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Datblygiad Deiliad Tai;
- Mewnlenwi a Datblygiad Tir Cefn;
- Datblygiadau Preswyl.

Amlinellwyd hefyd yr amserlenni a'r broses debygol ar gyfer yr ymarfer ymgynghori.

Mewn ymateb i'r cyflwyniad, gofynnodd yr Aelodau gyfres o gwestiynau am y tair dogfen, yr ymatebodd swyddogion iddynt yn unol â hynny.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Atodiad A: Drafft Ymgynghori'r Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygu Deiliaid Tai

Diwygio paragraff 3.39 ar tud.20 fel a ganlyn

Dileu paragraff 3.39 a rhoi'r canlynol yn ei le:

3.39 Mae paragraff 2.29 yn nodi pwysigrwydd cynnal pellter gwahanu o 15m er mwyn osgoi **effeithiau gormesol** i unrhyw eiddo yr effeithir arno. Mewn rhai achosion, gall cynnal pellter gwahanu o 15m hefyd fod yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn arwain at **effeithiau annerbyniol o ran edrych dros** ystafelloedd a gerddi eiddo y mae pobl yn byw ynddynt.Asesir unrhyw gynigion sy'n ceisio gostyngiad yn y pellter gwahanu hwn gan yr Awdurdod Cynllunio ynghylch a yw'r amgylchiadau unigol sy'n gymwys yn yr achos hwnnw'n cyfiawnhau llacio'r pellter safonol o 15m.

Dileu graffig a chapsiwn cysylltiedig.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r Canllawiau Creu Lleoedd ar Gyfer Datblygu Deiliaid Tai, Mewnlenwi a Datblygiad Tir Cefn a Datblygiad Preswyl (yn amodol ar y diwygiad a amlinellir uchod) ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.05 am

**Cadeirydd**